

Rhaglen waith – Paratoi a Gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (CE4)

PARATOI				
Cam	Eglurhad	Cyfrifoldeb	Amserlen CE4 Uniongyrchol	Amserlen CE4 Ddim yn Uniongyrchol
Paratoi sgerbwdd Adroddiad Cyfiawnhau Erthygl 4 a derbyn barn gyfreithiol arno	Ystyrir yn briodol fod arweiniad yn cael ei dderbyn o ran y wybodaeth a fwriedir ei gynnwys o fewn y 'Papur Cyfiawnhau Cyflwyno Erthygl 4', o ran ei gydymffurfiaeth gyda gofynion y ddeddfwriaeth.	HJ/RAJ	Diwedd Gorffennaf	
Creu grŵp llywio	<p>Angen sicrhau fod yr unigolion/Gwasanaethau sydd â diddordeb yn y mater yma yn rhan o'r drafodaeth.</p> <p><u>Sefydlu beth yw'r amcan a geisir ei gyflawni a'r weledigaeth hir dymor. Y nod hynny tybiwn i angen treiddio trwy'r gwaith cefndirol fel y sail er mwyn cyfiawnhau'r Erthygl 4.</u></p> <p>Awgrymu fod y canlynol yn rhan o'r grŵp llywio:- Swyddogion Gwynedd a Pharc (Gorfodaeth, Cynllunio, Polisi, Datblygu Economaidd, Adran Ymchwil).</p> <p>Mantais arall y grŵp llywio ydi y bydd posib i'r gwahanol Wasanaethau berchnogi'r gwaith a chymryd cyfrifoldeb am rannau penodol (casglu data er enghraifft).</p>	HJ	Cyfarfod i'w drefnu yn ystod mis Hydref	

Adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	Adrodd ar y datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig	GJ/HJ	27 Hydref 2022
Paratoi papur Cyfiawnhau'r erthygl 4	Defnyddio'r gwaith cefndir blaenorol fel sail ar gyfer y gwaith cyfiawnhau yn seiliedig ar y sgerbwd fydd wedi cael ei baratoi a'i gymeradwyo.	HJ/RAJ Hefo mewnbwn gan eraill	Drafft cyflawn erbyn diwedd Hydref
Sefydlu'r drefn o weithredu'r Erthygl 4	Angen cyngor cyfreithiol ar ba drefn Erthygl 4 fydd yn cael ei ddilyn. Beth yw risgiau/manteision y gwahanol ddulliau o weithredu Erthygl 4.	GJ/Adran Gyfreithiol	Hydref/Tachwedd
Sefydlu'r drefn o gymeradwyo'r Erthygl 4	Cyflwyno adroddiad drafft papur cyfiawnhau'r Erthygl 4 i'r: Tîm Arweinyddiaeth (CG) Gweithgor (APCE)	HJ/RAJ Elliw/ JC	Hydref/Tachwedd
Paratoi'r Erthygl 4	Adran Gyfreithiol i baratoi'r Erthygl 4.	Adran Gyfreithiol	Tachwedd/Rhagfyr
Adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	Adrodd ar y papur cyfiawnhau ac opsiynau ardaloedd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4	GJ/HJ	Ionawr neu Mawrth 2023
Adrodd i'r Pwyllgor perthnasol	Derbyn cymeradwyaeth o'r bwriad i gyflwyno / rhoi rhybudd 12 mis o'r Erthygl 4: Cabinet (CG) Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (APCE)	GJ JC	Ionawr neu Mawrth 2023

YMGYNGHORI

Cam	Eglurhad	Cyfrifoldeb	Amserlen CE4 Ddim yn Uniongyrchol
-----	----------	-------------	-----------------------------------

Paratoi Strategaeth Gyfathrebu	<p>Angen sicrhau fod y neges o'r hyn a gyflwynir yn cael ei gyfleu mewn modd syml a chlir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwestiynau a ofynnir yn aml • Cyfrifoldeb pwy i ateb • Sut mae'r neges yn cael ei gyfathrebu 	<p>USG/Adran Gyfathrebu</p> <p>Mewnbwn gan HJ/RAJ</p>	Tachwedd/Rhagfyr
Paratoi strategaeth ymgynghori	<p>Sicrhau fod y strategaeth ymgynghori yn cydymffurfio hefo'r gofynion. Angen ystyried:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbyseb lleol, ymhle? Rhybudd safle, ymhle? • Sicrhau fod y deunydd ar gael i'w archwilio mewn manau cyhoeddus. • Dull ymgysylltu • Cofnodi sylwadau, defnyddio meddalwedd penodol? 	<p>HJ/RAJ</p> <p>Mewnbwn gan yr Adran Gyfathrebu</p>	Tachwedd/Rhagfyr
Derbyn arweiniad cyfreithiol ar y broses	<p>Sicrhau fod y drefn yn cydymffurfio hefo'r deddfwriaethau perthnasol er mwyn osgoi unrhyw her gyfreithiol.</p>	Adran Gyfreithiol	Tachwedd
Paratoi deunydd ymgynghori	Hysbyseb, rhybudd safle, datganiad i'r wasg ayyb	<p>HJ/RAJ/KS</p> <p>Adran Gyfathrebu</p>	Rhagfyr/Ionawr
Cynnal yr ymgynghoriad	Hysbysebu'r sawl a effeithir yn unol â'r gofynion ynghyd a hysbysebu'r Gweinidog.	Gwasanaeth Polisi	Chwefror
Ystyried y sylwadau	Ymateb ac adrodd ar y sylwadau a dderbynnir.	<p>Gwasanaeth Polisi</p> <p>Mewnbwn gan yr Adran Gyfreithiol</p>	Mawrth

Cadarnhau'r Erthygl 4	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau 12 mis ar ôl rhybudd y bwriad • Anfon copi o'r cyfarwyddyd at Weinidogion Cymru • Hysbyseb leol • Hysbysiad safle <p>Deunydd angen cynnwys disgrifiad o'r datblygiad a'r ardal y mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddo.</p>	Gwasanaeth Polisi Mewnbyn Adran Gyfreithiol	Chwarter 1 2024
-----------------------	---	--	-----------------

GWEITHREDU			
Cam	Eglurhad	Cyfrifoldeb	Amserlen CE4 Ddim yn Uniongyrchol
Adnoddau	<p>Ystyried yr Adnoddau ychwanegol sydd ei angen er mwyn ymateb i:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwynion • Ymholiadau • Ceisiadau Cynllunio • Ceisiadau Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon • Apeliadau 	GJ/RAJ/KS	Parhaus
Codi ymwybyddiaeth trigolion a effeithir	Sicrhau fod yna gyfathrebiad clir a dull rhwydd i bobl allu cysylltu â'r ACLI i dderbyn arweiniad.	Gwasanaeth Polisi / Uned Gyfathrebu	Dros gyfnod y flwyddyn cyn iddo fod yn weithredol
Codi ymwybyddiaeth Swyddogion/Aelodau	Codi ymwybyddiaeth Swyddogion perthnasol ynghyd a'r Aelodau i'r newidiadau sydd yn dod i rym a goblygiadau hynny.	Gwasanaeth Polisi / Uned Gyfathrebu	Dros gyfnod y flwyddyn cyn iddo fod yn weithredol
Ystyried y goblygiadau Polisi	<p>Ydi'r fframwaith bolisi lleol presennol yn addas ei bwrpas yn dilyn y newid?</p> <p>Llunio polisiau newydd gwydn mewn ymateb i'r newid wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.</p>	Gwasanaeth Polisi	Parhaus

Monitro	Sicrhau fod yna fframwaith fonitro briodol mewn grym er mwyn gallu rheoli llwyddiannau'r mesurau newydd.	Gwasanaeth Polisi	Dros gyfnod y flwyddyn cyn iddo fod yn weithredol
---------	--	-------------------	---